**ATODIAD A**

## GWERTHOEDD AR GYFER GWAITH Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Er mwyn gwireddu dyheadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mae angen gwerthoedd cyson arnom y gallwn eu defnyddio i fesur ein heffeithiolrwydd wrth wasanaethu pobl Cymru. Credwn fod yr egwyddorion canlynol yn hanfodol i bob agwedd ar ein gwaith.

**Mewn partneriaeth:**

- gweithio gyda'n gilydd i feithrin cytundeb ar bynciau o fewn y Cynulliad.
- gwneud y gorau o bartneriaethau â busnesau, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol o dan y Ddeddf i'n helpu i gael pethau wedi'u gwneud.
- hybu dinasyddiaeth weithredol ymhlith pobl o bob oed a phob sector o'r gymuned.
- hybu cyfranogaeth drwy fod yn agored a thrwy gynnal trafodaethau adeiladol;
- cynnal cysylltiadau effeithiol gyda Whitehall ac adrannau gweinyddol datganoledig eraill fel ein bod yn gwybod yr hyn sy'n digwydd ac yn gallu dylanwadu ar bolisïau a rhaglenni'r Deyrnas Unedig.
- datblygu proffil Cymru yn Ewrop a'r Byd.

**Cynhwysol**

- hybu cynhwysiant cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal.
- gweithio er lles Cymru gyfan, gan bwyso a mesur ein polisïau a'n rhaglenni yn ôl eu heffeithiau ehangach ar bob rhanbarth
- cydnabod gofynion ardaloedd gwledig ac ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol a phob grp cymdeithasol: yr ifanc, yr henoed a'r lleiafrifoedd ethnig.
- targedu adnoddau i fynd i'r afael â phroblemau'r sawl sydd â'r angen mwyaf.

**Strategol**

- gosod fframweithiau cyffredinol y gall eraill eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar lefel leol.
- osgoi rheoli'r ddarpariaeth yn uniongyrchol os oes pobl eraill mewn sefyllfa well i wneud hynny.
- sicrhau bod y fframweithiau a lunnir gennym yn rhai syml, eu bod yn osgoi dyblygu, eu bod yn rhoi rhyddid i bobl leol benderfynu ar ddulliau gweithredu addas, a'u bod yn cael eu cefnogi.
- herio ein partneriaid, ein hasiantaethau a ni ein hunain yn barhaus ynghylch perfformiad ar sail y targedau a osodwyd.
- ceisio mynd i'r afael â gwraidd problemau a chwilio am atebion tymor hir cynaliadwy.

**Llywodraeth Dda**

- cloriannu effeithiolrwydd ein gwaith a gwaith ein partneriaid yn barhaus a sicrhau eu bod yn rhoi gwerth ychwanegol, a hynny ar sail y blaenoriaethau a'r gwerthoedd hyn.
- ceisio rhesymoli a symleiddio ein rhaglenni lle bynnag y bo modd.
- gwneud penderfyniadau sy'n ennyn parch am eu bod wedi eu seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.
- edrych sut y gallwn weithio'n fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â phynciau llosg drwy weithio gyda'n gilydd ar draws ffiniau swyddogaethol.
- gwneud y gorau o'r cynlluniau statudol i sicrhau cysondeb y gwaith.

**BLAENORIAETHAU**

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o Gymru hyderus ac eang ei gorwelion, lle gall pawb wireddu eu potensial, credwn y dylai pob rhaglen a maes gwaith weithio gyda'i gilydd, gan bontio ffiniau swyddogaethol yn ôl y gofyn, er mwyn blaenoriaethu eu cyfraniad i'r canlynol.

**Gwella Cyfleoedd am Waith**

- lleihau'r gwahaniaethau o fewn Cymru a chau'r bwlch rhwng ein perfformiad economaidd â pherfformiad economaidd ardaloedd eraill yn y DU ac Ewrop.
- symud pwyslais ein gwaith tuag at fuddsoddi mewn pobl a datblygu cyfleoedd gwaith lleol.
- creu mwy o gyfleoedd mewn ardaloedd tlotach: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ardaloedd gwledig difreintiedig.
- mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc ac anweithgarwch ymhlith pobl hn.
- seilio ein strategaeth gystadleuol ar wella ansawdd swyddi, ar ddatblygu mwy o brosesau sy'n ychwanegu gwerth, ar sicrhau amgylchedd o ansawdd uchel ac ar hybu'r diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg.

**Gwella Addysg**

- gweithio i wella safonau cyrhaeddiad a medrau cyffredinol a chynyddu cyfraniad a chyrhaeddiad y rheini sydd wedi'u dieithrio neu sydd mewn angen ar hyn o bryd.
- sicrhau bod cysylltiad clir rhwng addysg a hyfforddiant a'n strategaeth ar gyfer yr economi a chynhwysiant cymdeithasol.
- hybu sgiliau uwch eu gwerth, dinasyddiaeth weithredol, creadigedd ac entrepreneuriaeth.

**Gwella Iechyd**

- mynd i'r afael â gwir achosion afiechyd a lleihau'r gwahaniaethau.

- canolbwyntio ar broblemau iechyd sy'n ymwneud â thlodi a diffyg cyfleoedd a lleihau'r annhegwch o ran cyfle i ddefnyddio gwasanaethau.
- meithrin trafodaeth ar flaenoriaethau a chyfeiriad y gwasanaethau iechyd yn y dyfodol.

**Gwella Ansawdd Bywyd**

- mynd ar drywydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein gwaith.
- gwella ansawdd yr amgylchedd a mynd i'r afael â'r meysydd lle mae lle i wella.
- cynorthwyo cymunedau a sicrhau cartref boddhaol, trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol da, a chymuned heb droseddau.
- rhoi cymorth prydlon, o safon uchel i bobl pan fydd ei angen arnynt.

**Gwerth Gorau**

- sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon.